

# Bioamrywiaeth mewn Cynllunio

## Canllaw Syml i Ddatblygwyr



Gwiber © Peter Hill



Gwenynen ar feillionen



Dyfrgi © John Daniels/Ardea.com

NPT Biodiversity – It's our nature – Ein natur ni – Bioamrywiaeth CNPT

Neath Port Talbot County Borough – Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

# CYNNWYS


**1. Rhagarweiniad i Fioamrywiaeth a'r System Gynllunio** ..... 1

1.1 Beth yw Bioamrywiaeth a pham mae'n berthnasol? ..... 1
1.2 Rôl y System Gynllunio ..... 1
1.3 Y Polisi Cynllunio ..... 1
*1.3.1 Y polisi cynllunio cenedlaethol* ..... *1*
*1.3.2 Y polisi cynllunio lleol* ..... *2*
1.4 Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 2

**2. Sut rydw i'n ateb y cwestiwn bioamrywiaeth 1app?** ..... 3

2.1 Cwestiynau Cyffredin ..... 3
2.2 Beth mae'r cwestiynau bioamrywiaeth yn ei olygu? ..... 3
*2.2.1 Cwestiwn 14. a):* ..... *3*
*2.2.3 Cwestiwn 14. b):* ..... *3*
2.3 Sut rydw i'n gwybod a oes materion bioamrywiaeth ar fy safle? ..... 4
2.4 Beth nesaf? ..... 4
2.5 Llenwi'r ffurflen ..... 4
*2.5.1 Cwestiwn 14. a) Rhywogaethau a Warchodir ac â Blaenoriaeth* ..... *4*
*2.5.2 Cwestiwn 14. b) Safleoedd Dynodedig, cynefinoedd pwysig a nodweddion bioamrywiaeth eraill* ..... *5*
*2.5.3 Arall* ..... *5*
2.6 Argymhelliad ..... 5

**3. Gofynion Sylfaenol Arolygon Bioamrywiaeth** ..... 6

3.1 Mathau o Arolygon ..... 6
3.2 Amseru'r Arolygon ..... 8
3.3 Sut i ddod o hyd i ymgynghorydd ecolegol neu weithiwr trwyddedig ..... 9
3.4 Datblygiadau AEA ..... 9

**4. Bioamrywiaeth - Lliniaru a Gwneud Iawn** ..... 10

4.1 Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau lle maent ..... 10
*4.1.1 Clustogi* ..... *11*
*4.1.2 Cysylltedd* ..... *11*
4.2 Adleoli Cynefinoedd a Rhywogaethau ..... 11
*4.2.1 Cynefinoedd* ..... *11*
*4.2.2 Rhywogaethau* ..... *11*
4.3 Creu Cynefinoedd Newydd neu Wella'r Rhai Presennol ..... 13
*4.3.1 Creu* ..... *13*
*4.3.2 Rheoli a gwella* ..... *13*
4.4 Adfer ..... 14
4.5 Dylunio Datblygiadau ..... 15
*4.5.1 Toeon a Waliau* ..... *15*
*4.5.2 Draenio Trefol Cynaliadwy* ..... *15*
*4.5.3 Tirlunio* ..... *15*
*4.5.4 Cartrefi i Fywyd Gwyllt* ..... *16*
4.6 Digolledu (Prosiectau Oddi ar Safle) ..... 17
4.7 Amseru ..... 17
4.8 Monitro ..... 18
4.9 Lliniaru ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir ..... 18
4.10 Lliniaru mewn Safleoedd a Warchodir ..... 19

**5. Rhagor o Wybodaeth a Chyfeiriadau** ..... 20

**6. Cysylltiadau** ..... 21

# 1. RHAGARWEINIAD I FIOAMRYWIAETH A'R SYSTEM GYNLLUNIO

## 1.1 Beth yw Bioamrywiaeth a pham mae'n berthnasol?

Ceir diffiniad defnyddiol o fioamrywiaeth yn Adroddiad Grŵp Llywio'r DU ar Fioamrywiaeth, 1995: "Bioamrywiaeth (talfyriad o amrywiaeth biolegol) yw popeth byw, o forgrugyn bach yr ardd i'r goeden goch anferthol. Gallwch weld bioamrywiaeth ym mhobman, mewn blychau ffenestri a choedwigoedd gwyllt, ymylon ffyrdd a fforestydd glaw, mewn caeau o eira ac ar lan y môr"

Fel bodau dynol, rydym ninnau hefyd yn elfen o fioamrywiaeth y blaned, ac yn ddibynnol arno. Mae planhigion ac anifeiliaid yn darparu bwyd, a phlanhigion, ocsigen i ni ei anadlu, a chael pleser yn ein bioamrywiaeth brodorol yw nod llawer o atyniadau hamdden a thwristiaeth.  Y mae felly'n hanfodol ein bod yn ceisio deall ac amddiffyn ein bioamrywiaeth.

Mae'r system gynllunio yn un dull lle gallwn, o ran defnydd tir, roi sylw i anghenion bioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol a'r tu hwnt, oherwydd y cyfleoedd a'r bygythion a ddaw yn sgîl datblygiadau. Cefnogir hyn yn llawn gan bolisïau cynllunio a gofynion deddfwriaethol.

Felly mae'n bwysig mynd i'r afael â materion o'r fath fel rhan o'r ceisiadau cynllunio a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio. Gallai methu â gwneud hynny olygu gwrthod neu ohirio cais.


Robin © Barry Stewart

## 1.2 Rôl y System Gynllunio

Wrth reoli datblygiad, mae'r system gynllunio'n allweddol ar gyfer rheoli a lleihau'r pwysau ar fioamrywiaeth, drwy liniaru effeithiau negyddol a sicrhau budd.

Mae'r broses gynllunio'n gweithredu ochr yn ochr â deddfwriaeth bioamrywiaeth, gyda chynllunio a deddfwriaeth yn helpu i gyflawni ymrwymiadau'r llywodraeth.


Perth

Adlewyrchir pwysigrwydd deddfwriaeth ac ymrwymiadau yn y pwyslais ar fioamrywiaeth mewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.

Mae'n ofynnol ystyried amrywiaeth o faterion bioamrywiaeth o dan bolisïau cynllunio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd rhaid cydbwyso'r effeithiau ar fioamrywiaeth â buddion posib eraill ac effeithiau negyddol y datblygiad.

## 1.3 Y Polisi Cynllunio

### *1.3.1 Y polisi cynllunio cenedlaethol*

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio cadwraeth natur neu fioamrywiaeth ym mhob penderfyniad cynllunio yn gynnar yn y broses, ac ar yr un pryd, geisio datblygiadau a fydd yn cyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd dros amser (Polisi Cynllunio Cymru[1] (PCC) 5.1.3-4, 5.5.1-2). Ceir cyfeiriad at briodoldeb y canlynol:

- Sicrhau bod rhwymedigaethau rhyngwladol y DU i ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu bodloni'n llawn ym mhob penderfyniad cynllunio (PCC 5.5.1, 5.3.8-10)

- Ceisio datblygiadau a fydd yn gwireddu'r cyfle i wella bioamrywiaeth, osgoi colledion o bwys o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, ac os yw niwed yn anochel, gwneud iawn am hynny (PCC 5.1-2, 5.5.2 hefyd TAN 5, 5.7.3, 5.3.4)
- Creu a chryfhau cysylltiadau rhwng y system cynllunio gwlad a thref a chynllunio gweithredu bioamrywiaeth fel bod y system gynllunio'n gallu helpu i roi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ar waith (PCC 5.4.2, 5.2)

Nodyn Cyngor Technegol 5 (TAN5): Mae Cadwraeth Natur (2009)[2] yn cadarnhau pwysigrwydd bioamrywiaeth yn y system gynllunio. Mae'n awgrymu y dylai datblygiadau gyfrannu at gadwraeth natur a rhoi mwy o bwys ar gyfoethogi bioamrywiaeth yn hytrach na'i amddiffyn yn unig. Mae'r TAN yn rhoi arweiniad ar ymwneud â materion bioamrywiaeth wrth ddatblygu a chynllunio, ac yn disgrifio'r gofynion am ddarparu arolygon a chynigion lliniaru wrth gyflwyno ceisiadau, oherwydd bod y materion hyn yn berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau.

### *1.3.2 Polisi cynllunio lleol*

Mae Cynllun Datblygu Unedol Castell-nedd Port Talbot[3] (a'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar fin ymddangos), sydd â'i wreiddiau mewn polisi cenedlaethol, yn cynnwys polisïau sy'n cyfeirio at y rhagdybiaeth yn erbyn effeithiau niweidiol i safleoedd o ddiddordeb cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi mewn statud, gan ddweud y gellir gwrthod cynigion pe baent yn arwain at ddifrod neu ddinistr annerbyniol i gynefinoedd a rhywogaethau arwyddocaol lleol. Yn ogystal, mae'r polisïau hefyd yn manylu ar y disgwyliad y bydd pob datblygiad newydd yn rhoi sylw i fuddiannau bioamrywiaeth ac yn osgoi effeithiau annerbyniol drwy:

- gadw a chadwraeth nodweddion a chynefinoedd pwysig;
- ystyried yn llawn bwysigrwydd y safle o ran buddiannau bioamrywiaeth gerllaw;
- osgoi colli rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol[4] neu os nad yw hynny'n bosib, darparu rhai newydd; ac
- ystyried yn llawn y cyfle i adfer a chyfoethogi cynefinoedd ac ecosystemau.

Gyda'i gilydd, mae'r polisïau hyn yn pwysleisio bod yr adnodd bioamrywiaeth i'w wella neu ei gadw yn mynd y tu hwnt i ardaloedd dynodedig, a bod cadwraeth yn golygu cadw, amddiffyn, rheoli cynaliadwy ac adfer. O gofio'r amddiffyniad sylweddol a roddir o dan y polisïau hyn, mae'n amlwg y bydd gwybodaeth am fuddiannau bioamrywiaeth a'r ystyriaeth ohonynt yn rhan angenrheidiol o'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. Mae hefyd yn well bod ystyriaethau o'r fath yn cael eu cynllunio i mewn yn y datblygiad er mwyn ceisio ennill mantais gyffredinol i fioamrywiaeth.

## 1.4 Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r canllawiau cynllunio atodol ar gyfer bioamrywiaeth[5] yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth ynglŷn â sut y dylid ystyried bioamrywiaeth yn y system gynllunio. Yn ogystal, mae'n disgrifio sawl astudiaeth achos ar sut y gellir darparu ar gyfer buddiannau bioamrywiaeth mewn mathau penodol o ddatblygiad.


Cornchwiglen © Barry Stewart

# 2. SUT RYDW I'N ATEB Y CWESTIWN BIOAMRYWIAETH 1APP?

## 2.1 Cwestiynau Cyffredin

**C. Os ydw i'n ticio 'ie' wrth ateb y naill neu'r llall o'r cwestiynau bioamrywiaeth (a) a (b), a fydd hynny'n golygu na fyddaf yn cael caniatâd cynllunio?**

**A.** Nac ydy. Mae'r cwestiynau yno i sicrhau y gall yr awdurdod cynllunio ystyried holl faterion perthnasol eich cais cynllunio, sef bioamrywiaeth yn yr achos hwn.

**C. Beth yw bioamrywiaeth?**

**A.** Mae bioamrywiaeth yn cynnwys popeth byw, y planhigion a'r anifeiliaid rydym yn rhannu ein planed â hwy a'r mannau lle maent yn byw.

**C. Pam mae'n rhaid i mi ystyried bioamrywiaeth?**

**A.** Mae llawer o blanhigion ac anifeiliaid wedi'u hamddiffyn o dan y gyfraith, felly rhaid i chi sicrhau nad yw unrhyw waith ar eich safle (y tu mewn neu'r tu allan i'r system gynllunio) yn effeithio arnynt; neu gallech fod yn cyflawni trosedd ac wynebu dirwyon neu garchar. Mae cadw, cyfoethogi a chreu ardaloedd ar gyfer bioamrywiaeth mewn datblygiadau hefyd yn creu amgylchedd pleserus a gallai helpu i werthu eich datblygiad neu hyd yn oed ennill cefnogaeth iddo.

Felly, gan eich bod bellach yn gwybod beth yw bioamrywiaeth, nid yw hynny o angenrheidrwydd yn golygu y bydd eich cais cynllunio'n cael ei wrthod a phaham y dylech ei ystyried, ond sut rydych chi'n ateb y cwestiwn bioamrywiaeth ar y ffurflen 1app.

## 2.2 Beth mae'r cwestiynau bioamrywiaeth yn ei olygu?

*2.2.1 Cwestiwn 14. a):*

**14. Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol**

*A oes tebygolrwydd rhesymol y bydd effaith er gwaeth ar y canlynol, neu a fyddant yn cael eu cadw neu eu gwella o fewn safle'r cais, neu ar dir ger neu'n agos at safle'r cais?*

- ☐ *Oes, ar y safle datblygu*
- ☐ *Oes, ar dir ger neu'n agos at y datblygiad arfaethedig*
- ☐ *Nac oes*

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi a ydych yn mynd i effeithio ar fioamrywiaeth eich safle a'r cyffiniau – boed er gwaeth neu mewn ffordd gadarnhaol. Rhywogaethau a warchodir yw'r rhai hynny wedi'u gwarchod o dan y gyfraith. Mae yna nifer o rywogaethau wedi'u gwarchod o dan gyfraith genedlaethol ac Ewropeaidd, megis ystlumod a dyfrgwn. Os oes gennych unrhyw rai o'r rhain ar eich safle, efallai y bydd angen i chi gael trwydded ddatblygu gan Lywodraeth Cymru cyn tarfu arnynt. Rhywogaeth â Blaenoriaeth yw'r rhywogaethau hynny a restrir yng Nghynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU[6] a Chastell-nedd Port Talbot[4] (CGB y DU a CNPT) sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer gweithredu cadwraeth yn aml oherwydd y dirywiad yn eu niferoedd neu eu statws o dan fygythiad.

*b) Safleoedd dynodedig, cynefinoedd pwysig neu nodweddion bioamrywiaeth eraill:*

- ☐ *Oes, ar y safle datblygu*
- ☐ *Oes, ar dir ger neu'n agos at y datblygiad arfaethedig*
- ☐ *Nac Oes*

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a fydd eich datblygiad yn effeithio ar safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion cadwraeth natur fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur. Yn ogystal, mae'n gofyn am gynefinoedd pwysig – yr ardaloedd mae planhigion ac anifeiliaid yn byw ynddynt megis coetiroedd a glaswelltir. Y cynefinoedd pwysig yw'r rhai a restrir yn CGB y DU[6] a CNPT[4] ac mae'r cyfeiriad at nodweddion eraill yn ystyried coridorau bywyd gwyllt a cherrig camu sy'n galluogi bywyd gwyllt i symud drwy ardal, yn enwedig ardaloedd trefol.

## 2.3 Sut rydw i'n gwybod a oes materion bioamrywiaeth ar fy safle?

**C.** Sut rydw i'n gwybod a oes bioamrywiaeth ar fy safle?

**A.** Y ffordd orau i ddarganfod a oes materion bioamrywiaeth yn bodoli yw cynnal arolwg o'ch safle. I wneud hyn, bydd rhaid i chi gyflogi ymgynghorydd ecolegol i ymchwilio ar eich rhan. Ceir gwybodaeth am ddod o hyd i ecolegydd yn 'Cyngor ar Arolygon Ecolegol gan gynnwys sut i ddewis ymgynghorydd ecolegol' gan y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol/CBSCNPT[7].

**C.** Ond gallai hyn gostio, felly sut rydw i'n penderfynu a oes angen i mi gynnal arolwg?

**A.** Cyn i chi gyflwyno'ch cais, ceisiwch gyngor cyn ymgeisio gan yr adran gynllunio leol. Mae'n bosib y gallant ddweud wrthych a oes angen i chi gynnal arolwg. Neu gallwch gyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth[5] i gael mwy o wybodaeth a'r dogfennau cysylltiedig gan gynnwys dogfen Grŵp Ymgynghorol Bioamrywiaeth Morgannwg, Think Wildlife![8] Bydd hwn yn rhoi syniad i chi o'r math o faterion y gallech ddod ar eu traws ar eich safle. Yn drydydd, gallwch gysylltu'n uniongyrchol ag Uned Bioamrywiaeth y cyngor i gael cyngor.

## 2.4 Beth nesaf?

Os oes rhaid i chi wneud gwaith archwilio ar eich safle, rhaid ei wneud ar yr adeg gywir o'r flwyddyn. Er enghraifft, ni allwch archwilio am anifeiliaid os ydynt yn gaeafgysgu. Felly, y rheol gyffredinol yw archwilio'r rhan fwyaf o gynefinoedd a rhywogaethau yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf. Ni chaiff arolygon a gyflawnir ar adegau anaddas eu derbyn a gallech wynebu costau ychwanegol os bydd rhaid eu hail-wneud. Os bydd eich arolwg yn dangos bod materion bioamrywiaeth yn bodoli ar y safle, bydd gofyn cael cynllun lliniaru i ddangos sut y byddwch yn mynd i'r afael â hynny a cheisio sicrhau na fydd colled gyffredinol i fioamrywiaeth o ganlyniad i'ch datblygiad. Bydd eich ymgynghorydd ecolegol yn gallu eich helpu yn hyn o beth.

Gallwch ddarganfod a yw'ch safle yn agos at safle dynodedig drwy naill ai cysylltu â'r adran gynllunio neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Os yw'ch safle ar neu ger safle dynodedig (neu y gallai eich datblygiad effeithio arno e.e drwy lygredd aer), mae'n debyg y bydd angen arolwg a chynigion lliniaru i brofi na fyddai eich datblygiad yn effeithio'n andwyol ar safle o'r fath. Fodd bynnag, argymhellir y dylid ceisio cyngor cyn cyflwyno cais gan yr adran gynllunio cyn gynted â phosib os bydd y datblygiad yn effeithio ar safle dynodedig.

## 2.5 Llenwi'r ffurflen

*2.5.1 Cwestiwn 14.*

*a) Rhywogaethau a Warchodir ac â Blaenoriaeth*

- Na - Ticiwch 'na' os ydych yn sicr nad oes rhywogaethau a warchodir neu sydd â blaenoriaeth ar y safle neu eich bod wedi'ch cynghori na fyddai'r adran gynllunio'n disgwyl rhywogaethau o'r fath. Byddai rhyw fath o resymu dros yr ateb hwn o fudd fel rhan o'ch sylwadau.



- Ie (ar y safle) - ticiwch 'ie' os yw'r cyngor neu'r arweiniad cyn cyflwyno cais yn awgrymu bod rhywogaethau a warchodir neu â blaenoriaeth o bosib ar y safle, neu os ydych eisoes wedi cwblhau arolygon sydd wedi nodi rhywogaethau o'r fath yn bendant. Bydd rhaid cyflwyno adroddiad archwilio a lliniaru.

- Ie (ger y safle) - ticiwch 'ie' os yw'r cyngor neu'r arweiniad cyn cyflwyno cais yn awgrymu y gallai rhywogaethau a warchodir neu â blaenoriaeth fod yn bresennol ger eich safle, neu bod gwaith archwilio wedi nodi rhywogaethau o'r fath. Bydd rhaid cyflwyno adroddiad archwilio a lliniaru.

*2.5.2 Cwestiwn 14. b*

**Safleoedd Dynodedig, cynefinoedd pwysig a nodweddion bioamrywiaeth eraill**

- Na - ticiwch 'na' dim ond os yw'ch cyngor cyn cyflwyno cais wedi awgrymu nad oes safleoedd dynodedig yn yr ardal (neu o fewn pellter lle gellid effeithio arnynt) neu nad oes cynefinoedd neu nodweddion o ddiddordeb ar y safle neu os yw arweiniad neu arolygon ychwanegol wedi cadarnhau hyn. Byddai rhyw fath o resymu dros yr ateb hwn o fudd fel rhan o'ch sylwadau.

- Ie (ar y safle) - ticiwch 'ie' os yw cyngor, arweiniad neu waith archwilio cyn cyflwyno cais yn awgrymu y gallai safle dynodedig neu gynefinoedd neu nodweddion pwysig fodoli ar y safle. Bydd rhaid cyflwyno adroddiad archwilio a lliniaru.

- Ie (ger y safle) - ticiwch 'ie' os yw cyngor, arweiniad neu waith archwilio cyn cyflwyno cais yn awgrymu y gallai'r datblygiad effeithio ar safle dynodedig neu y gallai cynefinoedd neu nodweddion pwysig fodoli ger eich safle. Bydd rhaid cyflwyno adroddiad archwilio a lliniaru.

*2.5.3 Arall*

**Coed a Gwrychoedd**

---

*A oes coed neu wrychoedd ar y safle datblygu arfaethedig?* Oes ☐ Nac oes ☐

*A/neu: A oes coed neu wrychoedd ar dir ger y safle datblygu arfaethedig a allai ddylanwadu ar y datblygiad, neu a allai fod yn bwysig fel rhan o gymeriad y dirwedd leol?* Oes ☐ Nac oes ☐

*Os atebwyd 'Oes' i'r naill neu'r ddau o'r uchod, bydd angen i chi ddarparu Arolwg Coed llawn gyda'r cynllun atodedig cyn y gellir penderfynu ar eich cais. Dylai eich Awdurdod Cynllunio Lleol nodi ar ei wefan beth ddylai'r arolwg ei gynnwys, yn unol â'r BS5837 presennol: Coed o safbwynt adeiladu - Argymhellion'.*


Er nad yw hyn wedi'i gynnwys yn yr adran bioamrywiaeth, mae'r cwestiwn coed a gwrychoedd yn dal yn berthnasol i fioamrywiaeth oherwydd bod y nodweddion hyn yn debygol o gefnogi bywyd gwyllt; ac mae gwrychoedd yn gynefin pwysig. Felly, os byddwch yn ateb 'Oes' i'r cwestiynau hyn, rhaid i chi ateb yn gadarnhaol i o leiaf yr ail gwestiwn ar fioamrywiaeth.

## 2.6 Argymhelliad

Peidiwch â chynhyrfu! Ceisiwch gyngor os nad ydych yn siŵr am y cwestiwn bioamrywiaeth. Peidiwch â thicio 'na' os ydych yn ansicr. Dim ond oedi pethau fydd hynny. Mae ar yr awdurdod cynllunio ddyletswydd i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth ac felly, bydd yn cadarnhau a oes materion o'r fath gyda'r Uned Bioamrywiaeth hyd yn oed os byddwch yn ticio 'na'. Os bernir bod materion bioamrywiaeth yn berthnasol, byddwn wedyn yn gofyn am arolygon a hynny'n gohirio penderfyniad ar eich cais. Felly, cofiwch am faterion bioamrywiaeth cyn llenwi'r ffurflen a cheisiwch gyngor.

# 3. GOFYNION SYLFAENOL AROLYGON BIOAMRYWIAETH

Bydd y gofynion am arolygon yn benodol i'r cais a'r safle, felly nid rhestr gyflawn yw hon. Argymhellir bod ymgeiswyr yn ceisio cyngor cyn cyflwyno cais i sicrhau eu bod yn cwblhau arolygon sy'n berthnasol i'w datblygiad. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod yr wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu fel bod yr adran gynllunio'n gallu penderfynu ar y cais cynllunio, ond hefyd ei fod yn arbed costau arolygon/gwaith dianghenraid ar gyfer y cais.




## 3.1 Mathau o arolygon

Gellir defnyddio'r canlynol fel canllaw sylfaenol ynghylch y math o arolygon a fydd yn ofynnol ar gyfer y gwahanol fathau o ddatblygiad:

| Math o ddatblygiad | Gofynion arolygon |
|---|---|
| • Addasiadau - adeiladau ac adeileddau e.e. ysguboriau, tai mas, tai, eglwysi, capeli ac ysgolion.<br>• Dymchwel - rhan neu adeiladau ac adeileddau cyfan.<br>• Estyniadau - yn enwedig y rhai a fydd yn cloi i mewn i doeon.<br>• Gwaith to - e.e. addasu lofft, ffenestri dormer neu driniaethau adfer gwaith pren. | • Arolwg Ystlumod (gan weithiwr ystlumod trwyddedig).*<br>• Arolwg Tylluan Wen (mae'n bosib y bydd angen adaregydd trwyddedig).*<br>• Arolwg Adar Nythu (cyffredinol). |
| • Ogofâu, mwyngloddiau, mynedfeydd a thwneli - unrhyw ddatblygiad gerllaw neu sy'n debygol o achosi aflonyddu<br>• Chwareli - unrhyw ddatblygiadau sy'n effeithio ar chwarel neu lle gallai aflonyddu effeithio ar chwarel, gan gynnwys chwareli newydd neu estyniadau i rai sydd eisoes yn bodoli.<br><br>*Sylwer: Lle bo chwareli'n cynnwys pyllau neu adeiladau, dylid cyfeirio hefyd at yr adrannau hynny isod.* | • Arolwg Ystlumod (gan weithiwr ystlumod trwyddedig). *<br>• Arolwg Hebog Tramor (Peregrine) (mae'n bosib y bydd angen adaregydd trwyddedig) yn bennaf chwareli'n unig.<br>• Arolwg Adar Nythu (cyffredinol).*<br>• Arolwg Cynefinoedd, mapio drwy ddefnyddio arolwg cynefinoedd cam 1 a nodi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.* |

| Math o ddatblygiad | Gofynion arolygon |
|---|---|
| • Gwrychoedd a phrysgwydd - unrhyw ddatblygiad sy'n gofyn am ddileu gwrychoedd a/neu brysgwydd.<br>• Coed a Choetiroedd - unrhyw ddatblygiad sy'n effeithio ar goed neu goetiroedd. | • Arolwg Pathewod (bydd angen gweithiwr trwyddedig). Yn brin yn CNPT, felly dylid cadarnhau a oes angen hwn.<br>• Arolwg Ystlumod (gan weithiwr ystlumod trwyddedig).*<br>• Arolwg Moch Daear.*<br>• Arolwg Adar Rhestr 1 megis gwalch Marthin, y barcut coch a Boda'r Mêl (mae'n bosib y bydd angen adaregydd trwyddedig arnoch).<br>• Arolwg Adar Nythu (cyffredinol).<br>• Arolwg Cynefinoedd, mapio drwy ddefnyddio arolwg cynefinoedd cam 1 a nodi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.* |
| • Pyllau, merddwr a chamlesi, gan gynnwys dyfroedd artiffisial, a'r tir amgylchynol - Unrhyw ddatblygiad sy'n effeithio ar byllau neu ferddyfroedd eraill a'r tir amgylchynol (<500m)<br>• Afonydd, nentydd a ffosydd - Unrhyw ddatblygiad sy'n effeithio ar gyrsiau dŵr, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.<br>• Gwlyptiroedd gan gynnwys corsydd, ffeniau, mignen a gwernydd - unrhyw ddatblygiad sy'n effeithio ar wlyptiroedd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. | • Arolwg Madfallod Cribog Mwyaf (gan weithiwr trwyddedig). Yn brin yn CNPT, felly dylid cadarnhau a yw hyn yn angenrheidiol.<br>• Arolwg Dyfrgwn.*<br>• Arolwg Ymlusgiaid.*<br>• Arolwg Llygod y Dŵr. Yn brin yn CNPT, felly dylid cadarnhau a yw hyn yn angenrheidiol .<br>• Arolwg Ieir Bach yr Haf Brith y Gors.<br>• Arolwg Corryn Rafft y Ffen. Rhywogaeth brin a chyfyng ei chwmpas felly dylid cadarnhau a yw hyn yn angenrheidiol.<br>• Arolwg adar Rhestr 1 megis telor Cetti neu las y dorlan (efallai bydd rhaid cael adaregydd trwyddedig).<br>• Arolwg Cynefinoedd, mapio drwy ddefnyddio arolwg cynefinoedd cam 1 a nodi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.* |
| • Safleoedd tir llwyd - gan gynnwys rwbel glo.<br>• Glaswelltir - gan gynnwys glaswelltir calchaidd, niwtral, corsiog ac asidig.<br>• Rhostir<br>• Tir âr<br>• Arfordirol - gan gynnwys twyni, morydau a morfeydd heli. | • Arolwg Dyfrgwn. (arfordirol neu lle bo nodweddion gwlyptiroedd neu gyrsiau dŵr yn bresennol).<br>• Arolwg Tafolen y Twyni a Gefell-lys y Fignen. Yn brin yn CNPT felly dylid cadarnhau a yw hyn yn angenrheidiol.<br>• Arolwg planhigion Rhestr 8, megis penigan y |

| Math o ddatblygiad | Gofynion arolygon |
|---|---|
| | porfeydd.  Rhywogaeth brin a chyfyng ei chwmpas felly dylid cadarnhau a yw hyn yn angenrheidiol.<br>• Arolwg Moch Daear.*<br>• Arolwg Ieir Bach yr Haf Brith Brown a Brith y Gors (glaswelltiroedd corsiog).*<br>• Arolwg adar Rhestr 1 megis y cwtiad torchog.*<br>• Arolwg adar nythu (cyffredinol), gan gynnwys y cornchwiglen.*<br>• Arolwg Ymlusgiaid.*<br>• Arolwg Cynefinoedd, mapio drwy ddefnyddio arolwg cynefinoedd cam 1 a nodi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.* |
| • Tyrbinau Gwynt | • Arolygon Adar Mannau Ffafriol - yn enwedig rhywogaethau adar ysglyfaethus (efallai bydd rhaid defnyddio adaregydd arbenigol).*<br>• Arolwg Adar Bridio (cyffredinol).*<br>• Arolygon adar gaeafu a mudol/teithiol.*<br>• Arolwg Ystlumod (gan weithiwr ystlumod trwyddedig). *<br>• Arolwg Cynefinoedd, mapio drwy ddefnyddio arolwg cynefinoedd cam 1 a nodi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.*   Bydd hyn yn pennu a fydd angen arolygon penodol eraill. |

** = yr arolygon y mae'r gofyn cyffredinol amdanynt*




### 3.2 Amseru'r Arolygon

Rhaid cynnal rhai arolygon ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig felly mae goblygiadau o ran amseru'r penderfyniad cynllunio a dechrau'r gwaith datblygu. Gellir defnyddio'r canlynol fel canllaw cyffredinol:

| Arolwg: | Math | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adar | Bridio | | | / | / | / | / | / | | | | | |
| Ymlusgiaid | Gaeafu | / | / | | | | | | | | / | / | / |
| Madfallod Cribog Mwyaf | Yn bresennol | | | | / | / | / | / | / | | | | |
| Moch Daear, Llygod y Dŵr | Yn bresennol | | | / | / | / | / | / | | | | | |
| Dyfrgwn, Pathewod | Yn bresennol | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / |
| Ystlumod | Clwydo | | | | | / | / | / | / | / | | | |
| Iâr Fach yr Haf Brith y Gors | Gaeafgysgu | / | / | / | / | | | | | | | / | / |
| Corryn Rafft y Ffen | Yn bresennol | | | | | | / | | | / | / | | |
| Planhigion | Yn bresennol | | | | | | / | / | / | | | | |
| Iâr Fach yr Haf Brith Brown | Yn bresennol | | | | | / | / | / | / | | | | |
| Iâr Fach yr Haf | Yn bresennol | | | | | | | / | | | | | |
| Arolwg Cynefinoedd | Yn bresennol | | | | | / | / | / | / | / | | | |

*/ = cyfnod gorau am arolwg*

Sylwer os gwneir arolwg y tu allan i'r cyfnod gorau, efallai y caiff ei wrthod a bydd rhaid ei ail-wneud yn ystod y tymor addas. Yn ogystal, os cyflwynir ceisiadau heb arolygon perthnasol ac mewn tymor pan nad oedd yn bosib cynnal arolwg, ni fydd yn bosib penderfynu ar y ceisiadau hynny.

**Dylai'r arolygon gynnwys:**

- Cofnodion arolygon/rhywogaethau'r safle.
- Crynodeb o statws y cynefinoedd a'r rhywogaethau pwysig sy'n bresennol.
- Pwysigrwydd y safle yn lleol ac yn ehangach.
- Nodi unrhyw ardaloedd oddi mewn i'r safle y mae rhywogaethau pwysig yn eu defnyddio, a phryd y'u defnyddir.
- Effaith y datblygiad arfaethedig.
- Cynigion lliniaru, fel y bo'n briodol.

## 3.3 Sut i ddod o hyd i ymgynghorydd ecolegol neu weithiwr trwyddedig

Bydd yn ofynnol i ymgynghorydd ecolegol cymwys gynnal yr arolygon ecolegol. Bydd yn ofynnol i ymgynghorydd â thrwydded i arolygu rhai rhywogaethau penodol ar gyfer rhai arolygon, megis arolygon ystlumod. Nid yw'r cyngor yn gallu argymell ymgynghorwyr, ond mae ganddo restr o ymgynghorwyr, gan gynnwys gweithwyr trwyddedig, sy'n gwneud gwaith yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r rhestr hon tua diwedd y ddogfen 'Cyngor ar Arolygon Ecolegol, gan gynnwys sut i ddewis ymgynghorydd ecolegol'.

## 3.4 Datblygiadau AEA


Argymhellir y dylid ceisio barn cwmpasu gan yr Adran Gynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n gofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn cynghori'r ymgeisydd ynglŷn â'r math o arolwg bioamrywiaeth sy'n ofynnol ar gyfer y math o ddatblygiad a'i leoliad arfaethedig.

# 4. BIOAMRYWIAETH - LLINIARU A GWNEUD IAWN

Mae maint y gwaith lliniaru neu wneud iawn angenrheidiol ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth fel arfer yn ymwneud â maint y datblygiad a maint y niwed neu'r effaith ar y fioamrywiaeth (bydd y gwaith arolwg perthnasol yn amlygu hyn). Ceir syniadau, cyngor ac enghreifftiau yn y tudalennau canlynol o ran datblygiadau diwydiannol mawr megis diwydiant ar raddfa fawr, chwareli a datblygiadau mwynol; datblygiadau preswyl mawr; datblygiadau bach a datblygiadau perchen tŷ megis plotiau un annedd ac addasu ysgubor. Mae ystyried camau lliniaru bioamrywiaeth yn gynnar ar adeg dylunio datblygiad yn allweddol. Os darperir camau lliniaru a/neu wneud iawn o safon (os yw'n berthnasol) yn gynnar yn y broses ddylunio, bydd hynny'n debygol o gyflymu'r broses ac o bosib, gynyddu'r posibilrwydd o lwyddiant o ran agweddau bioamrywiaeth y cynllun.

**Dangosir y camau lliniaru sy'n arbennig o berthnasol i fathau arbennig o ddatblygiad mewn blychau lliw gwahanol fel a ganlyn:**

- **Safleoedd Diwydiannol Mawr**
- **Safleoedd Preswyl Mawr**
- **Datblygiad bach a Pherchen tŷ**



Ffotograff 1- Glan nythu gwennol y glennydd gyda phwll a rhywogaeth a adleolwyd-glaswelltir cyfoethog © Prenergy

### 4.1 Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau lle maent

Dylid ymdrechu i osgoi niwed neu andwyo cynefinoedd a rhywogaethau cyn ystyried camau lliniaru a gwneud iawn, a dylid gwneud hyn cyn gynted â phosib ym mhroses ddylunio'r datblygiad. Efallai y bydd rhaid i hwn gynnwys ystyried dylunio cwmpas y datblygiad er mwyn osgoi ardaloedd pwysig o'r fath. Os nad yw hynny'n bosib, efallai bydd rhaid rhoi camau lliniaru neu wneud iawn ar waith, megis adleoli neu ail-greu.

Preswyl Mawr


Gallai cynnwys cynefinoedd mewn ardaloedd agored neu gynllun tirlunio fod yn opsiwn. Er enghraifft, mae'r datblygiad preswyl oddi ar Gelligron, Pontardawe, yn cynnwys ardal o gynefinoedd a gadwyd fel gwarchodfa natur fechan.

Ar raddfa fach

Gall hyd yn oed plotiau bach gynnal nodweddion bywyd gwyllt pwysig a dylid cadw'r rhain i'r graddau y mae hynny'n bosib. Coed a pherthi yw'r nodweddion mwyaf cyffredin ar safleoedd bychan fel hyn, yn enwedig lle bu plotiau'n rhan o ardd fwy yn flaenorol. Dylid cadw'r rhain ble bynnag y bo'n bosib, o leiaf o gwmpas ffiniau'r safle, oherwydd gallant fod yn bwysig i rywogaethau megis adar ac ystlumod.

*4.1.1 Clustogi*

Os yw datblygiad mawr ar dir glas, yn aml y cynefinoedd allweddol i'w hystyried fydd coetiroedd, gwrychoedd a nentydd. Dylid cadw a gwarchod coetiroedd ble bynnag y maent yn bodoli a dylid dylunio datblygiadau fel y bônt yn osgoi cynefinoedd o'r fath a darparu elfen glustogi iddynt. Bydd y clustogi'n gwarchod rhywogaethau cyrion y coetiroedd a'r system wreiddiau a hefyd yn sicrhau na fydd difrod yn digwydd yn y dyfodol o adeiladau cyfagos drwy dorri canghennau sy'n crogi drosodd a thipio anghyfreithlon er enghraifft. Yn ddelfrydol, dylid sefydlu llain glustogi 10m o gyrion coetiroedd.




Dylid sefydlu lleiniau clustogi hefyd rhwng cyrsiau dŵr a'r datblygiad; a thrwy hynny, warchod y cwrs dŵr ei hun, gan ddarparu mynediad posib i unrhyw waith atal llifogydd neu waith arall, gan sicrhau bod y cynefin bywyd gwyllt yn cael ei warchod a darparu peth lle rhag ofn i'r cwrs dŵr newid ei lwybr neu'n dechrau erydu rhai darnau. Fel arfer, mae llain glustogi 7m yn ofynnol ar gyfer cyrsiau dŵr. Ni ddylid cynnwys y lleiniau clustogi hyn mewn gerddi lle gallai perchnogion yn y dyfodol eu niweidio neu lechfeddiannu arnynt. Gweler diagram 1.

### 4.1.2 Cysylltedd

Gall gwrychoedd a choed mawr fod yn allweddol wrth greu coridorau a chysylltedd cynefinoedd i fywyd gwyllt er mwyn symud drwy ddatblygiad i ardaloedd cyfagos. Gellid ystyried cadw cynifer â phosib o gynefinoedd o'r fath yn gynllun tirlunio aeddfed sydyn. Mae cynefinoedd yn rhoi aeddfedrwydd a glesni i safle a allai gynyddu apêl gweledol datblygiad a hefyd barhau i ddarparu diddordeb bioamrywiaeth. Mae'n bwysig iawn hefyd ystyried ble mae cynefinoedd fel hyn yn cysylltu â chynefinoedd oddi ar y safle, megis gwrychoedd sy'n cysylltu coetiroedd, er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau pwysicaf yn cael eu dylunio i mewn i osodiad y datblygiad. Gweler diagram 3.

## 4.2 Adleoli Cynefinoedd a Rhywogaethau

*4.2.1 Cynefinoedd*

Mae'n bosib symud rhai cynefinoedd megis glaswelltiroedd i leoliadau eraill, o ddewis ar y safle o hyd neu gerllaw. Gellir tywarchu rhai glaswelltiroedd a'u trawsleoli, megis y glaswelltir sy'n doreithiog o rywogaethau ger dociau Port Talbot, a ddangosir yn ffotograff 1.



Ffotograff 2- Gwennol y glennydd yn defnyddio'r lan nythu artiffisial a grëwyd o'r newydd © Prenergy

*4.2.2 Rhywogaethau*

Diwydiannol Mawr

Cafodd gwenoliaid y glennydd a fu gynt yn nythu mewn chwarel tywod a graean yn Nociau Port Talbot eu hadleoli'n llwyddiannus i strwythur a adeiladwyd yn arbennig, fel y gwelir yn ffotograffau 1 a 2. Mae'r pwll a ddarparwyd islaw'r safleoedd nythu yn ffynhonnell fwyd i'r adar hyn. Darparwyd yr holl gamau hyn fel rhan o strategaeth liniaru ar gyfer Gwaith Biomàs ym Mhort Talbot a ddatblygwyd gan Prenergy.




Mae adleoli ymlusgiaid o safle datblygu yn ofyniad cyffredin yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gall hyn fod yn anodd oherwydd bod rhaid darparu safle derbyn addas i'r anifeiliaid hyn. Yn aml, mae ardaloedd a fyddai'n gynefinoedd addas eisoes yn cynnal poblogaethau o ymlusgiaid ac felly, byddai'n annhebygol y byddai ychwanegu mwy o anifeiliaid i leoliadau o'r fath yn dderbyniol.




Felly, mae'n rhaid creu safleoedd derbyn yn aml o gynefinoedd anaddas, megis ffermdir pori lle mae'r glaswellt yn fyr. Mewn ambell achos, gellir cadw darn o'r datblygiad yn safle derbyn a gwella'r cynefin er mwyn iddo ddarparu ar gyfer anifeiliaid ychwanegol o weddill y safle datblygu. Gall camau o'r fath gynnwys creu safleoedd gaeafgysgu neu fridio (gweler diagram 2). Rhaid ystyried gofynion posib yr ymlusgiaid yn gynnar yn ystod dylunio datblygiad, oherwydd mae'n bosib y bydd rhaid cael mwy o dir os na fydd yn bosib darparu safle derbyn ar safle'r datblygiad ei hun.

Preswyl Mawr

Rhywogaeth arall a gafodd ei hadleoli yn ystod y blynyddoedd diweddar yw'r fadfall ddŵr gribog fwyaf yng Nghoed D'arcy. Mae'r rhywogaeth hon yn un o'r Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, felly rhaid cael trwydded gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu'r adleoli. Roedd rhaid creu set o byllau newydd ychydig oddi ar safle'r datblygiad, a oedd yn cysylltu â rhwydwaith o byllau, nodweddion gwlyptiroedd a chynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy ar hyd un o derfynau'r safle i gyfeiriad safle dynodedig Cors Crymlyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am ymlusgiaid ac amffibiaid yn 'Amphibians and Reptiles in South Wales' gan CBSCNPT/SWWARG[9].

## 4.3 Creu Cynefinoedd Newydd neu Wella'r Rhai Presennol

### *4.3.1 Creu*

Mae'n hawdd creu cynefinoedd megis glaswelltiroedd, coetiroedd a phyllau cyfoethog eu rhywogaethau a'u cynnwys mewn cynlluniau tirlunio ar gyfer safleoedd. Gellir creu cynefinoedd o'r fath yn hawdd drwy blannu neu hadu ardaloedd â rhywogaethau brodorol. Gellir creu hyd yn oed rhostiroedd a gwelyau cyrs ar safle neu oddi arno drwy ddefnyddio dulliau safonol. Fodd bynnag, mae'n anodd dyblygu cynefinoedd sy'n dibynnu ar amodau hydrolegol penodol ac amodau naturiol eraill megis corsydd, coetiroedd gwlyb a thwyni tywod, felly dylid osgoi'r rhain ble bynnag y bo'n bosib, a'u gadael lle maent.

Mae lleoliad cynefinoedd o'r fath mewn datblygiad yn allweddol. Dylid eu lleoli'n ddelfrydol fel eu bod yn cysylltu â chynefinoedd gerllaw yn yr ardal gyfagos (gweler diagram 3). Ni ddylent fod wedi'u hynysu nac wedi'u hamgylchynu'n llwyr gan y datblygiad ei hun (gweler diagram 4). Mae'n bosib y bydd gofyn cael rheolaeth benodol ar greu ardaloedd cynefinoedd newydd, felly mae cynllun rheoli ar gyfer yr ardaloedd hyn fel arfer yn rhan annatod o'r pecyn lliniaru.

Diagram 3 – Cysylltedd Ecolegol wedi'i Gadw





Diagram 4 – Cysylltedd Ecolegol wedi'i Dorri




### *4.3.2 Rheoli a gwella*

Gall ychydig o reoli priodol fod yn fanteisiol lle bo cynefinoedd eisoes yn bodoli ar safle er mwyn gwella'r ardaloedd hyn ar gyfer bywyd gwyllt, er enghraifft, efallai bod angen teneuo coetir, neu newid patrwm y torri ar laswelltir er mwyn osgoi amserau blodeuo neu hadu, glanhau pyllau rhag iddynt gael eu tagu gan lystyfiant. Fel arall, gall creu nodweddion ychwanegol mewn cynefinoedd sy'n bodoli helpu amrywiaeth ardaloedd o'r fath e.e. creu pyllau, llennyrch mewn coetiroedd neu greu pentyrrau cynefinoedd (pentwr o foncyffion etc) er mwyn i fywyd gwyllt eu defnyddio i nythu a gaeafu.

Ffotograff 3 – Selar



Diwydiannol Mawr

Gwelir enghraifft o reoli cynefinoedd sy'n bodoli ar safle Gwaith Glo Brig Selar ger Blaengwrach yng Nghwm Nedd, sy'n cynnwys gwarchodfa natur o eiddo'r cwmni ac a reolir ganddo (gweler ffotograff 3). Mae'r warchodfa natur yn cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd, megis gweirglodd, ceunentydd coetir a thipiau glo a adfywhawyd. Mae'r rhain wedi'u cadw, eu rheoli a'u monitro am sawl blwyddyn. Rheolir y warchodfa natur yn bennaf drwy bori gofalus gan ffermwyr lleol. Caiff y pori ei amseru a'i gylchdroi'n ofalus yn ôl gofynion ecolegol pob cae. Mae rhai o'r caeau yn y warchodfa natur wedi datblygu dros y blynyddoedd a bellach yn darparu ffynhonnell ddefnyddiol o hadau ar gyfer parhau i adfer safle'r gwaith.

## 4.4 Adfer

Diwydiannol Mawr

Mae'n bosib mai cynlluniau adfer fydd y prif ddull o liniaru bioamrywiaeth a chamau gwella mewn datblygiad, yn arbennig o ran datblygiadau mwynol a chwareli. Gall cynlluniau adfer gynnwys nifer amhenodol o gynigion ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys creu cynefinoedd sylweddol.

Gall ponciau chwareli weithredu fel ardaloedd bridio pwysig i adar, hyd yn oed pan fo'r chwarel yn gweithio, a gellir cadw'r ardaloedd hyn dros gyfnod hir yn ardaloedd bridio allweddol ar gyfer rhai o adar prin yr ardal. Gall chwythu adferol sensitif ar waliau'r chwarel hefyd greu amrywiaeth o gynefinoedd drwy greu sgrïau a phonciau. Gellir yn hawdd droi lloriau chwareli yn nodweddion gwlyptiroedd os nad oes rhaid eu llenwi'n llwyr.

Mae safleoedd glo brig yn cynnig cynfasau gwag bron ar gyfer creu cynefinoedd, ac o'u cynllunio'n iawn, gallent wella amrywiaeth y cynefinoedd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig lle cafwyd tir ffermio unffurf yn wreiddiol. Gellir creu gwahanol fathau o laswelltiroedd drwy hadu priodol a'r gallu i ddylunio tirffurfiau; gellir cynllunio ardaloedd a fydd yn goleddu a hynny'n helpu i ffurfio gwlypdiroedd; gall cadw rhai ardaloedd o wastraff ychwanegu elfen gynefinoedd bwysig arall a all fod yn dda i infertebratau ac ymlusgiaid. Gall datblygiadau ar raddfa fawr fel hyn gynnig cyfle i ddatblygu ac arbrofi ar dechnegau newydd i greu ac adfer cynefinoedd.

Gall codi, gwahanu a storio priddoedd fod yn allweddol i adfer mathau arbennig o gynefinoedd; yn enwedig lle mai'r elfen hanfodol yw amodau hydrolegol sy'n dibynnu ar gleiau. Gall amseriad lleoli priddoedd o'r fath fod yn hollbwysig a dylid cynllunio hynny'n ofalus i sicrhau nad yw storio priddoedd penodol yn parhau'n hwy nag sy'n angenrheidiol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y byddai'n briodol gosod pridd i lawr yn uniongyrchol fel rhan o waith adfer fesul cam, a hynny'n lleihau'r angen am storio o gwbl. Byddai hyn yn bwysig iawn i briddoedd y gellir eu niweidio oherwydd eu bod yn sychu, megis pridd mawnaidd.

I gael syniadau ac enghreifftiau o'r hyn y gellir ei wneud fel rhan o gynlluniau adfer, ewch i wefan y Minerals Products Association[10] a gwefan Nature After Minerals[11].

## 4.5 Dylunio Datblygiadau

### *4.5.1 Toeon a Waliau*

Nid oes rhaid creu cynefinoedd mewn lleoliadau traddodiadol. Mae toeon gwyrdd a brown yn wych fel cynefinoedd bywyd gwyllt pan fo lle ar lawr yn gyfyng. Mae toeon brown yn enwedig yn wych ar gyfer cynnal rhywogaethau adar a phryfed pwysig a fyddai fel arall yn cael eu colli neu eu disodli, yn enwedig ar safleoedd tir llwyd (gweler ffotograff 4). Mae technegau o'r fath wedi cael eu defnyddio ar draws y wlad yn rhannol oherwydd eu bod o fudd o ran effeithlonrwydd ynni a dŵr ac mae'n helpu i fodloni safonau archwilio amgylcheddol, BREEAM a gofynion cynaladwyedd. Mae'r dechneg hon hefyd bellach wedi datblygu i waliau gwyrdd neu fyw lle mae llystyfiant ar waliau adeiladau'n cael ei hybu.



**Ffotograff 4 – To byw ar Gartref Nyrsio yn Llanybydder, Sir Gâr © Chris Jones**

Preswyl Mawr

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae datblygiadau sy'n cynnwys blociau o fflatiau wedi dechrau cynnwys 'waliau neu ffasadau gwyrdd' yn eu datblygiadau. Gall dyluniadau a chymhlethdodau'r rhain amrywio, ond ar ei symlaf, mae'n golygu datblygu planhigion dringo i orchuddio wal drwy ddefnyddio dellt, a hynny'n aml yn wifrau metel. Mae waliau gwyrdd yn ddewis da ar gyfer datblygiadau trefol lle nad yw safle'r datblygiad yn cynnig llawer o le ar gyfer tirlunio.

I gael mwy o wybodaeth am doeon a waliau gwyrdd/brown, ewch i wefan Living Roofs[12] and Green Walls[13] neu gweler taflen 'Living roofs' English Nature[14].

### 4.5.2 Draenio Trefol Cynaliadwy

Mae Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDs) hefyd yn ddull defnyddiol o hybu bioamrywiaeth mewn datblygiadau fel rhan o gynllun draenio.



**Ffotograff 5 – Dôl blodau gwyllt**

Ceir nifer o fanteision mewn systemau o'r fath; e.e. gallant drin ansawdd dŵr gwael, reoli cyflymder y llif, ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt a bod yn fwy deniadol i'r llygad ar yr un pryd.

I gael mwy o arweiniad ar SuDs, edrychwch ar arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd ar ei gwefan[15] ac ewch i wefan CIRIA[16].

### 4.5.3 Tirlunio

Tirlunio yn aml yw'r dull hawsaf o ymgorffori bioamrywiaeth mewn cynllun. Mae hau hadau blodau gwyllt, plannu perthi a choed brodorol yn hawdd eu cynnwys mewn cynllun tirlunio. Mae hau hadau blodau gwyllt yn arbennig yn boblogaidd iawn erbyn hyn, yn enwedig ar hyd ffyrdd.

Diwydiannol Mawr

Mae cynllun Ffordd yr Harbwr ym Mhort Talbot wedi cynnwys llawer o hau hadau blodau gwyllt gyda'r nod o hybu gwenyn a ieir bach yr haf. Cafodd cymysgedd tebyg o hadau ei ddefnyddio ym Mharc Ynni Baglan gerllaw swyddfeydd y cyngor yn y Ceiau (gweler ffotograff 5).

Ceir mwy o wybodaeth ar hau hadau blodau gwyllt yn y daflen 'Bees and Development'[17].

Byddai'n hawdd cynnwys rhywogaethau o blanhigion sy'n denu bywyd gwyllt yng ngofynion mwy addurnol cynllun; mae digonedd o amrywiaethau sy'n darparu cysgod neu ffynhonnell fwyd i fywyd gwyllt. Mae mwy o wybodaeth a rhestrau am blanhigion sy'n denu bywyd gwyllt ar wefannau Plant for Wildlife[18] a Plant Press[19]. Hefyd, gweler y daflen 'Bywyd Gwyllt yn eich Gardd'[20] i gael rhagor o syniadau.

Ar raddfa fach

Mae'n hawdd ychwanegu neu greu nodweddion ar raddfa fach a fydd yn cynnal bywyd gwyllt mewn cynllun tirlunio neu ardd. Gall y rhain amrywio o blannu planhigion sy'n denu bywyd gwyllt, plannu coed, creu pwll bach neu bentwr cynefinoedd.



Ffotograff 6 – Briciau ystlumod mewn talcen adeilad © John Haddow & Anney Youngman/BCT

## 4.5.4 Cartrefi i Fywyd Gwyllt

Gellir cynllunio adeiladau hefyd a fydd yn darparu cysgod i rywogaethau megis adar ac ystlumod. Gellir gosod blychau adar neu ystlumod ar adeiladau neu ar goed yn y datblygiad. Gellir adeiladu briciau ystlumod neu adar yn yr adeiladau eu hunain fel nodweddion mwy parhaol (gweler ffotograffau 6 a 7).



Tylluan Wen © Chris Knights/Ardea.com

Yn gyffredinol, rhaid gosod y nodweddion hyn yn uchel o afael ysglyfaethwyr megis cathod ac, yn enwedig o ran ystlumod, ymhell o oleuadau.



Ffotograff 7 – Briciau ystlumod wedi'u hadeiladu mewn adeilad © John Haddow & Anney Youngman/BCT

Preswyl Mawr

Mae eu gosod mewn talcenni tai yn ymddangos yn boblogaidd mewn datblygiadau preswyl. I gael mwy o wybodaeth am friciau ystlumod a chamau lliniaru eraill ewch i wefan glwydo'r Bat Conservation Trust[21]. Gellir darparu hefyd ar gyfer ystlumod drwy gynnig mynediad i le gwag yn y to drwy fylchau rhwng ffasgau er enghraifft. Fodd bynnag, sylwer ei bod yn bosib y bydd camau lliniaru penodol yn angenrheidiol os yw ystlumod wedi'u darganfod ar y safle. Dylid cyfeirio at yr adran ar Liniaru Rhywogaethau a Warchodir.

Ar raddfa fach

Mae angen llety mwy penodol ar gyfer adar mwy megis y dylluan wen, sy'n fwy perthnasol ar gyfer addasiadau a datblygiadau yng nghefn gwlad, yn enwedig addasu ysguboriau. Gellir ymgorffori blychau a silffoedd tylluan wen neu neilltuo rhan o le gwag yn y to i ddarparu man nythu.

Ceir mwy o wybodaeth am ddarparu safleoedd nythu i'r dylluan wen ar wefan y Barn Owl Trust[22]. Yn benodol ar gyfer addasu ysguboriau, lawrlwythwch daflen y Barn Owl Trust[22].

Mae angen nythod artiffisial wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer rhywogaethau eraill o adar, megis y wennol, gwennol y bondo, ac aderyn y to. Gellir dod o hyd i'r rhain a'u cynnwys mewn cynlluniau adeiladu cyn hawsed â blychau safonol. Dyma rai o'r manylebau safonol ar gyfer nythod artiffisial:

**Ar gyfer datblygiadau mewn lleoliadau trefol neu is-drefol:**

- Teras aderyn y to - blwch nythu pren (neu brengoncrit) gyda thri rhaniad i gynnal 3 phâr nythu. I'w gosod o dan bondo adeiladau. Tyllau mynediad diamedr 32mm . Dimensiynau U310 x Ll370 x D185mm.
- Nyth gwennol ddu - blwch llydan gyda thwll mynediad ar ffurf agen fach Rhaid eu gosod o dan toeon neu'n agos at doeon, o leiaf 5m o'r llawr. Dimensiynau U150 x Ll340 x D150mm.

**Ar gyfer datblygiadau yng nghefn gwlad neu sy'n ymwneud ag adeiladau amaethyddol:**

- Nythod gwenoliaid - nythod ar ffurf cwpanau i'w gosod y tu mewn i adeiladau mas gyda llwybr hedfan clir. Dylid gosod tri yn uchel, o ddewis ar drawstiau, o leiaf metr ar wahân. Dimensiynau U110 x Ll250 x D140mm.

- Nyth gwennol y bondo (Dwbl) - Pâr o nythod ar ffurf cwpan gydag agoriad llai ger y top, i'w osod o dan bondoeau adeiladau, o leiaf 2m o'r llawr. Dimensiynau H110 x W460 xD140mm. DS Gall greu llanast.
- Nyth gwennol ddu - blwch llydan gyda thwll mynediad ar ffurf agen fach. Rhaid ei osod o dan toeon neu'n agos at doeon, o leiaf 5m o'r llawr. Dimensiynau: U150 x Ll340 x D150mm.

Yn ogystal â darparu cartrefi i fywyd gwyllt yn nyluniadau adeiladau, mae'r un mor bwysig i osgoi defnyddio deunyddiau megis trin prenwaith â chemegau a allai niweidio creaduriaid megis ystlumod.

Mae sawl dull amgen ar gael sy'n addas i fywyd gwyllt a dylid defnyddio'r rhain ble bynnag y bo'n bosib.Gweler taflen Natural England 'Bat Friendly Timber Products'[24]

## 4.6 Digolledu (Prosiectau Oddi ar Safle)

Os nad yw camau lliniaru'n gallu mynd i'r afael â'r holl effeithiau ar fioamrywiaeth, hwyrach y bydd rhaid digolledu am unrhyw golledion neu niwed ar y safle drwy waith oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol. Os yw'n amhosib darparu ar gyfer anghenion bioamrywiaeth ar y safle, hwyrach y bydd yn bosib darparu rhyw fath o fudd bioamrywiaeth ar dir arall o dan reolaeth yr ymgeisydd.

Fel arall, o fetho popeth arall, gellir ystyried cyfraniadau ariannol at brosiect bioamrywiaeth a gynhelir gan y cyngor neu sefydliad bioamrywiaeth lleol arall. Gallai hyn gynnwys cefnogi prosiectau sy'n bodoli eisoes, neu brynu a rheoli (neu greu os bydd rhaid), ardal cynefinoedd addas etc.  Fodd bynnag, ystyrir y dewisiadau hyn bob amser pan fetho popeth arall, a dylid ystyried pob dewis arall i liniaru neu ddigolledu ar safle'r datblygiad cyn gwneud hynny.

**Diwydiannol Mawr**

Ceir enghreifftiau o brosiectau oddi ar safle sydd wedi cynnwys rheoli ardaloedd cynefinoedd gerllaw i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth dros y tymor hir ar gyfer is-orsaf ym Margam a gwella cynefin oddi ar safle i gynnal poblogaeth ymlusgiaid sylweddol yng nghynllun Ffordd yr Harbwr.

**Preswyl Mawr**

Yn ogystal, mae prosiectau wedi cynnwys creu pyllau ar mwyn hwyluso adleoli'r Fadfall Gribog Fwyaf, a chreu tyllau newydd i foch daear yng Nghoed D'arcy; a chodi adeilad newydd ar dir gerllaw ar gyfer ystlumod ym Mhontardawe.

Caiff cynlluniau o'r fath eu trin ym aml drwy gytundebau S106. I gael rhagor o wybodaeth am gytundebau o'r fath, cysylltwch â'r Adran Cynllunio.

## 4.7 Amseru

Mae bioamrywiaeth yn aml yn dymor benodol. Mae rhai rhywogaethau'n ymddangos neu ar eu mwyaf gweithgar ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig.  Felly, mae'n rhaid cyflawni peth gwaith lliniaru ar adegau arbennig yn yr un modd ag arolygon. Mae amseru gwaith o'r math hwn yn allweddol er mwyn osgoi oedi. Gweler rhai cyfyngiadau allweddol o ran amseru yn y tabl isod:


Dyfrgi © John Daniels/Ardea.com

| Cynefin neu Rywogaeth | Math o waith | I | Ch | M | E | M | Me | G | A | M | H | T | Rh |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Moch daear | Creu brochfeydd | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / |
| | Cau brochfeydd (o dan drwydded) | | | | | | | | / | / | / | / | |
| Adar | Clirio llystyfiant | / | / | | | | | | / | / | / | / | / |
| Ymlusgiaid | Dal ac adleoli | | | | / | / | - | - | / | / | | | |
| | Clirio llystyfiant | / | / | / | | | | | | | | / | / |
| Madfallod Cribog Mwyaf | Dal madfall ddŵr - pwll a thir (o dan drwydded) | | | / | / | / | / | | | | | | |
| | Dal madfall ddŵr - tir (o dan drwydded) | | | / | / | / | / | - | - | - | - | | |
| | Plannu ac adloeli | / | / | - | - | | | | | - | / | / | / |
| | Torri dôl blodau gwyllt (lladd gwair) | | | | / | | | | | / | | | |
| | Creu gwalau | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / |
| | Creu clwydau (ar wahân i'r rhai sy'n bodoli) | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / | / |
| | Gwaith ar glwydau mamogaeth (o dan drwydded) | / | | / | / | | | | | / | / | / | / |
| | Gwaith ar glwydau gaeafu (o dan drwydded) | | | | | / | / | / | / | / | / | | |

*/= amser gorau i'r gwaith. - = amser gwaethaf i'r gwaith.*

Sylwer mai canllaw'n unig yw'r tabl uchod i'r cyfyngiadau amseru cyffredinol cyffredin. Mae'n bosib y bydd amseru mwy penodol yn cael ei osod ar gyfer y datblygiad penodol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â rhywogaethau a warchodir. Dylid ceisio mwy o wybodaeth gan y corff trwyddedu yn hyn o beth e.e. Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu Lywodraeth Cymru. Hefyd, dylid cofio y gall amser torri dolydd blodau gwyllt amrywio yn ôl y rhywogaethau a hadwyd.

## 4.8 Monitro

Mae monitro gan ecolegydd yn allweddol yn ystod y gwaith ac wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y lliniaru/gwella wedi bod yn llwyddiannus. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer newid technegau rheoli er mwyn sicrhau bod y cynefinoedd a phoblogaethau'r rhywogaethau'n cael eu datblygu a'u cynnal yn ôl y bwriad.

## 4.9 Lliniaru ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir

Os yw rhywogaeth a warchodir yn cael ei darganfod ar y safle, bydd rhaid darparu camau lliniaru addas cyn bwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiad. Bydd rhaid ymgymryd â gwaith lliniaru ar gyfer rhywogaethau a warchodir gan Ewrop megis ystlumod, dyfrgwn a'r fadfall gribog fwyaf o dan drwydded gan Lywodraeth Cymru ynghyd â chyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Argymhellir y dylid trafod â Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn gynnar yn y broses gynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad a fyddai'n debygol o effeithio

ar rywogaethau o'r fath, er mwyn gweld beth fyddai'n rhaid ei wneud o ran lliniaru. Mewn rhai achosion, gallai lliniaru fod yn anos neu'n ddrutach os na chaiff ei ystyried yn ddigon cynnar.

Ymysg yr enghreifftiau o liniaru ar gyfer rhywogaethau a warchodir gan Ewrop, y mae creu pyllau ac adleoli Madfallod Cribog Mwyaf yng Nghoed D'arcy; darparu 'Ystlumdy' i ystlumod ym Mhontardawe a Choed D'arcy, cynnal llwybrau porthianna ystlumod a lleihau goferu goleuadau yn Ystalyfera. Ystlumod yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin yng nghyd-destun datblygiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid yw'r fadfall gribog fwyaf a'r pathew yn gyffredin yng Nghastell-nedd Port Talbot felly ni ddeuir ar eu traws fel arfer. Gellir osgoi effeithio ar ddyfrgwn fel arfer drwy ddefnyddio'r lleiniau clustogi y cyfeirir atynt uchod. I gael rhagor o syniadau a chyngor ar liniaru o ran ystlumod, ewch i wefan glwydo'r Bat Conservation Trust[24].

Ar raddfa fach

Ystlumod yw'r rhywogaeth a warchodir fwyaf cyffredin mewn datblygiadau llai a deiliaid tai. Mae'r enghreifftiau o liniaru ar gyfer ystlumod yn cynnwys darparu blychau ystlumod, briciau ystlumod a chaniatáu mynediad parhaus i wagle'r to.

Yn yr un modd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ac a restrir o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad neu'r Ddeddf Gwarchod Moch Daear, mae'n bosib y bydd rhaid cael trwydded gan CCGC ar gyfer camau lliniaru, felly dylid trafod hyn yn gynnar hefyd.

I gael rhestr gyflawn o'r rhywogaethau a warchodir, ewch i'n gwedudalennau Bioamrywiaeth a'r Gyfraith[25].

### 4.10 Lliniaru mewn Safleoedd a Warchodir

Dylid osgoi effeithiau ar safleoedd a warchodir, costied a gostio. Prin iawn y byddai datblygiad yn cael ei ganiatáu os rhagwelir effeithiau sylweddol ar safleoedd o'r fath. Hwyrach y gallai datblygiad fod yn dderbyniol mewn rhai amgylchiadau lle bo camau lliniaru'n lleihau'r effeithiau'n foddhaol, er enghraifft, camau i atal llygru. Bydd rhaid ceisio cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru cyn gynted â phosib ym mhroses cynllunio'r datblygiad ar gyfer safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol dynodedig. Unwaith eto, gallai ymgorffori gofynion safleoedd o'r fath yn hwyrach fod yn anodd ac yn gostus iawn os na chânt eu hystyried yn gynnar yn y broses ddylunio. Bydd lliniaru addas yn ddibynnol iawn ar nodweddion pwysig y safle penodol dan sylw, ac felly dylid ceisio cyngor yn gynnar.

Hwyrach y bydd gofyn cael asesiad ar gyfer safleoedd dynodedig Ewropeaidd a Rhyngwladol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 o ran effeithiau posib datblygiad ar safleoedd o'r fath. Mae'n bosib y bydd rhaid darparu cryn dipyn o wybodaeth i gynorthwyo'r awdurdod yn ei asesiad.


Ystlum Hirglust © John Daniels/Ardea.com

# 5. RHAGOR O WYBODAETH A CHYFEIRIADAU

1. Polisi Cynllunio Cymru, 4ydd arg. Chwefror 2011 - Llywodraeth Cymru
   www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw

2. Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio, 2009 – Llywodraeth Cymru
   www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan5

3. Cynllun Datblygu Unedol Castell-neddPort Talbot - CBSCNPT
   www.npt.gov.uk/ldp

4. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot
   www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

5. Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth – CBSCNPT
   www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

6. UK Biodiversity Action Plan
   www.ukbap.org.uk

7. Ecological Survey Advice including how to choose an ecological consultant (Wildlife and Development Sites) – Association of Local Government Ecologists/NPTCBC
   www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

8. Think Wildlife! – Grŵp Ymgynghorol Bioamrywiaeth Morgannwg
   www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

9. Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn ne Cymru – CBSCNPT/SWWARG
   www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

10. Gwefan Minerals Products Association
    www.mineralproducts.org

11. Gwefan Nature After Minerals
    www.afterminerals.com

12. Gwefan Living Roofs
    www.livingroofs.org

13. Gwefan Green Walls
    www.green-walls.co.uk

14. Taflen Living Roofs Natural England
    www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

15. Gwefan Asiantaeth Amgylchedd Cymru - SuDs
    www.environmentagency.gov.uk/business/sectors/37026.aspx

16. Gwefan CIRIA -SuDs
    www.ciria.org.uk/suds

17. Bees and Development Guidance – CBSCNPT
    www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

18. Gwefan Plant for Wildlife
    www.plantforwildlife.ccw.gov.uk

19. Gwefan Plant Press
    www.plantpress.com/wildlife

20. Taflen Bywyd Gwyllt yn eich Gardd – CBSNPT
    www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

21. Bat Conservation Trust-Gwefan Roost
    http://roost.bats.org.uk

22. Gwefan Barn Owl Trust
    www.barnowltrust.org.uk

23. Barn Owl Trust – Barn Conversions Leaflet No. 22
    www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

24. Natural England Bat roosts and timber treatment products. Nodyn Gwybodaeth Dechnegol
    www.npt.gov.uk/biodiversity (downloads)

25. Gwefan Bioamrywiaeth a'r Gyfraith Castell-nedd Port Talbot
    www.npt.gov.uk/biodiversity (biodiversity and the law)

Mae dolenni ar gael i'r holl gyfeiriadau hyn drwy fersiwn wedudalen y llyfryn hwn.

## 6. CYSYLLTIADAU

**Uned Bioamrywiaeth CBS Castell-nedd Port Talbot**
*Ffôn: 01639 686868*
E-bost: biodiversity@npt.gov.uk
Gwefan: www.npt.gov.uk/biodiversity

**Adran Cynllunio CBS Castell-nedd Port Talbot**
*Ffôn: 01639 686868*
Gwefan: www.npt.gov.uk/planning

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
*Ffôn: 01792 326450*
E-bost: enquiries@ccw.gov.uk
Gwefan: www.ccgc.gov.uk

**Llywodraeth Cymru – Trwyddedu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop**
*Ffôn: 0300 062 2253*
E-bost: natureconservation@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.wales.gov.uk

**Llywodraeth Cymru - Adran Cynllunio**
*Ffôn: 0300 0603300*
E-bost: planning.division@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.wales.gov.uk